

Tasg 3

(Craidd, sbardun 3)

GWAITH GRŴP

Mae paragraff cyntaf y darn darllen yn egluro logo Masnach Deg.

- a. Mae pob aelod o'r grŵp i ddewis unrhyw 3 logo gwahanol e.e. tîm peldroed, tîm rygbi, banc, cymdeithas adeiladu, ceir, awyrennau, cyfrifiaduron, ffonau, diodydd
- b. Ysgrifennwch baragraff yn egluro ystyr pob logo ond heb ei enwi
- c. Rhowch y paragraffau i grŵp arall yn y dosbarth i weld ydyn nhw'n gallu dyfalu beth ydy'r logos.